**Cyfarfod: Y Cyd-bwyllgor Archwilio**
**Lleoliad: Hydra 119 a chyfrwng Teams**
**Dyddiad: 5 Rhagfyr**
10.30y.b. – 1.30y.h.

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Ms Kate Curran (KC) Cadeirydd<br>Mr Farhan Shakoor (FS)<br>Ms Julie James (JJ)<br>David Macgregor (DM) |
| **Mynychwyr y Cyd-bwyllgor Archwilio** | Dirprwy Brif Gwnstabl Ifan Charles, Dirprwy Brif Gwnstabl (IC)<br>Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu (DLl)<br>Ms Carys Morgans, Prif Swyddog Gweithredol (CM)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (EH)<br>Ms Nicola Davies, Prif Swyddog Cyllid (ND)<br>Mr Jason Blewitt, Archwilio Cymru (JB)<br>Ms Fiona Roe, TIAA (FR)<br>Ms Gaynor Maddox, Pennaeth Rhaglenni a Newid (GM)<br>Ms Michelle Reynolds, Pennaeth Cyllid Dros Dro (MR)<br>Mr Neil Evans, Rheolwr Busnes SCHTh (NE) |
| **Ymddiheuriadau** | Ms Caroline Wheeler (CW)<br>Dr Richard Lewis, Prif Gwnstabl<br>Ms Beverley Peatling, Prif Swyddog Cyllid<br>Mr Jonathon Maddock, TIAA (JM) |
| **Datganiadau o fuddiant:** | Dim |

Heddlu Police DYFED-POWYS

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD AR 31 Gorffennaf 2024 | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif y cam gweithredu** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **I'w symud ymlaen gan** | **Cynnydd** |
| A14 | Bod y pwyllgor yn cynnal hunanasesiad o'r broses archwilio mewnol a gynhaliwyd gan TIAA ymhen 12-18 mis. | Prif Swyddog Cyllid | **Ar y gweill –** cynhelir hunanasesiad o'r broses archwilio mewnol ac adroddir yn ôl i'r pwyllgor yn ystod 2025/2026 |
| A17 | Bod TIAA yn adolygu'r canlyniadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad cydweithredol o'r Ddeddf Diogelu Data i ddeall y rhesymeg y tu ôl i'r canlyniadau a bod adroddiad diwygiedig yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y pwyllgor. | FR | **Wedi'i gwblhau –** mae'r adroddiad wedi'i gynnwys ar yr agenda ar gyfer 29 Ionawr 2025. |
| A19 | Bod y Cyd-bwyllgor Archwilio yn adolygu'r cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion yn yr adolygiad cydweithredol o Delemateg ym mis Ionawr 2025. | Y Cyd-bwyllgor Archwilio | **Wedi'i gwblhau –** mae'r adroddiad wedi'i gynnwys ar yr agenda ar gyfer 29 Ionawr 2025. |
| A24 | Bod ystyriaeth yn cael ei roi i gynnwys adolygiad o bolisi a gweithdrefnau chwythu'r chwiban yng Nghynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2025-2026 | Grŵp Llywodraethu Archwilio | **Ar y gweill** – Bydd hyn yn cael ei ystyried gan y Grŵp Llywodraethu Archwilio |

| | CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD AR 2 Hydref 2024 | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif y cam gweithredu** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **I'w symud ymlaen gan** | **Cynnydd** |
| A 27 | Bod dogfen ychwanegol yn cael ei datblygu i ategu'r cynllun gwaith presennol sy'n cynnwys mecanwaith i aelodau weld unrhyw newidiadau i'r agenda. | NE | **Wedi'i gwblhau:** Mae dogfen newydd wedi'i pharatoi i'r aelodau ei hystyried. |
| A 28 | Bod adroddiad ar berfformiad dangosyddion perfformiad allweddol mewn perthynas â'r targed 10 diwrnod ar gyfer ymatebion archwilio mewnol yn cael ei ddarparu i'r pwyllgor bob chwarter. | Grŵp Llywodraeth u Archwilio | **Wedi'i gwblhau:** Mae hyn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad ar yr agenda. |
| A 29 | Bod TIAA yn ystyried nifer y diwrnodau a neilltuwyd ar gyfer adolygiadau penodol i sicrhau bod amserlenni yn ymarferol ar gyfer y maes dan sylw. | FR/JM | **Wedi'i gwblhau:** Derbyniodd yr aelodau'r wybodaeth hon ar 22 Ionawr 2025 |
| A 30 | Bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r aelodau i dynnu sylw at newidiadau i'r safonau llywodraethu archwilio a'r hyn y mae'n ei olygu ar gyfer safonau adrodd. | FR | **Wedi'i gwblhau:** Mae hyn wedi'i gynnwys ar agenda'r cyfarfod ar 29 Ionawr 2025. |
| A31 | Bod Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) yn cymryd rôl arweiniol wrth sicrhau bod yr argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad sicrwydd o gofnodi troseddau yn cael eu symud ymlaen gan sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu o fecanweithiau adolygu. | SCHTh | **Ar y gweill:** Cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer Ionawr. |
| A32 | Bod adroddiad yr adolygiad sicrwydd o reoli risg yn cael dod yn ôl i'r cyfarfod nesaf gyda diweddariad ar sylwadau rheolwyr a gwybodaeth am sut i fynd i'r afael â'r argymhellion. | GM | **Wedi'i gwblhau:** Rhoddir diweddariad i'r pwyllgor ar 29 Ionawr 2025. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A35 | Bod y pwyllgor yn derbyn adroddiad diweddaru ar y cynnydd sy'n cael ei wneud ar y camau gweithredu a gynhwysir yn Rhestr Wirio Rheolaeth Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ymhen chwe mis. | Cyfarwyddwr Cyllid | **Ar y gweill:** bydd adroddiad yn cael ei gynnwys ar agenda'r cyfarfod a gynhelir ym mis Mawrth 2025. |

### 3. Cadarnhau cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2024 a 27 Tachwedd 2024

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2024 a 27 Tachwedd 2024 fel cofnod cywir gan y pwyllgor.

### 4. Adolygiad o Gamau Gweithredu Heb eu Cyflawni

Trafododd y pwyllgor y camau gweithredu heb eu cymryd o'r cyfarfodydd blaenorol fel a ganlyn: -

A17 – Yn dilyn cyfarfod rhwng FR ac FS bydd adroddiad yr adolygiad cydweithredol Diogelu Data yn cael ei ailgyhoeddi.

A 29 – Oherwydd bod blaenoriaethau'n gwrthdaro, byddwn yn ystyried nifer y diwrnodau a neilltuwyd ar gyfer adolygiadau penodol er mwyn sicrhau bod amserlenni'n ymarferol ar gyfer y maes dan sylw maes o law a rhoddir diweddariad yn y cyfarfod nesaf.

A32 – Dywedodd GM, o ran yr adolygiad sicrwydd o Reoli Risg, fod cyfarfod wedi'i gynnal gyda'r staff mewn perthynas â sylwadau'r rheolwyr a ddarparwyd i'r cyfarfod, a bydd diweddariad yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

### 5. Cynllun Gwaith y Cyd-bwyllgor Archwilio

Dywedodd NE fod dogfen newydd wedi'i llunio yn dilyn y cyfarfod diwethaf sy'n amlygu'r adroddiadau sy'n ddyledus ymhob cyfarfod. Nodwyd y byddai'r ddogfen Excel yn parhau i gael ei chynnwys ar yr agenda er mwyn caniatáu i'r aelodau gael sicrwydd y byddai adroddiadau safonol yn cael eu hystyried mewn modd amserol.

Nodwyd bod angen trefnu cyfarfod preifat rhwng y pwyllgor, TIAA ac Archwilio Cymru yn y flwyddyn newydd.

Gofynnodd KC i adroddiad diweddaru ar reoli gwybodaeth gael ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer y dyfodol hyd y gellir ei ragweld er mwyn caniatáu i'r pwyllgor fonitro cynnydd.

Gofynnodd y pwyllgor i'r ddogfen Excel gael ei diwygio i dynnu allan yr eitemau y gofynnwyd amdanynt gan yr aelodau gan fod y rhain eisoes wedi'u hystyried a byddai unrhyw geisiadau yn y dyfodol yn rhan o'r ddogfen newydd ei datblygu.

**CAM GWEITHREDU A38 – Bod cyfarfod yn cael ei drefnu rhwng aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio, TIAA ac Archwilio Cymru.**

**CAM GWEITHREDU A39 – Bod adroddiadau diweddaru ar reoli gwybodaeth yn cael eu cynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol er mwyn galluogi'r pwyllgor i fonitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud.**

**CAM GWEITHREDU A40 – Dileu ceisiadau aelodau o'r cynllun gwaith generig, sef yr adroddiad cydymffurfedd statudol ystadau ac adroddiad ymchwiliadau pensiwn. Bydd ceisiadau o'r math hwn yn cael eu cynnwys yn y camau gweithredu a'u cynnwys yn y ddogfen cynllun gwaith sydd newydd ei datblygu.**

6. **Derbyn diweddariad o gyfarfod y Grŵp Llywodraethu Archwilio a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2024.**

Rhoddodd MR ddiweddariad o'r cyfarfod Llywodraethu Archwilio a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd. Dywedodd MR fod yr holl archwiliadau wedi'u cynllunio, a bod cynnydd da yn cael ei wneud. Mae saith archwiliad wedi eu cwblhau, pump ohonynt wedi derbyn sicrwydd sylweddol. Mae'r dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu monitro mewn perthynas â nifer y dyddiau rhwng y cyfarfod ymadael a'r adroddiad drafft.

Nododd FS ei bod yn braf gweld y dangosyddion perfformiad allweddol wedi'u cynnwys yn y ddogfen, ond awgrymodd y byddai'n fuddiol i aelodau weld baner neu liw i amlygu'r adolygiadau lle nad yw'r dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu diwallu. Byddai hyn yn gymorth wrth ganolbwyntio'r trafodaethau.

Gofynnodd DM a oedd safle Adfer Trychineb Rhydaman bellach yn fyw. Cadarnhaodd EH fod y safle bellach yn fyw, a dywedodd GM ymhellach fod cynlluniau adfer da ar waith o'r ochr seiber a TG gan fod y rhain wedi'u cynnwys yn y cynlluniau parhad busnes.

Gofynnodd JJ am ddiweddariad mewn perthynas â'r argymhellion agored ar gyfer Adnoddau Dynol a'r ffaith bod y dyddiadau gweithredu wedi'u diwygio. Dywedodd MR y byddai'n cynnal cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Pobl a Datblygiad Sefydliadol yn fuan. Gofynnodd y pwyllgor i'r cyfarwyddwr fynychu cyfarfod nesaf y pwyllgor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf.

**Cam Gweithredu A41 – Bod statws baner/lliw yn cael ei gynnwys o fewn y Grŵp Llywodraethu Archwilio i alluogi aelodau i nodi'r adolygiadau hynny sy'n destun mwy o oedi.**

**Cam Gweithredu A42 – Bod y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygiad Sefydliadol yn mynychu'r cyfarfod nesaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas ag argymhellion archwilio mewnol Adnoddau Dynol.**

## 7. Ystyried camau gweithredu cyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2024 (Cyfarwyddwr Cyllid)

Derbyniodd y pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf gan EH ar gamau gweithredu'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a gyfarfu ar 20 Tachwedd. Dywedodd EH wrth yr aelodau bod trafodaeth wedi'i gynnal mewn perthynas â chontract gofal iechyd y ddalfa a oedd i fod i fynd yn fyw. Cynhaliwyd trafodaethau pellach mewn perthynas â materion yn ymwneud â'r broses fetio.

Yn dilyn trafodaeth ynghylch gohirio archwiliad achredu y Sefydliad Rhyngwladol er Safoni (ISO), gofynnodd FS am eglurder ynghylch pa fath o achrediad ISO. Dywedodd EH fod hyn yn ymwneud ag achrediad gan y Gynghrair Fforensig yn hytrach nag Achrediad TGCh yn benodol.

## 8. Ystyried yr adroddiadau canlynol gan yr archwilwyr mewnol:

### a. Ystyried yr Adroddiad Cryno ar Sicrwydd Rheolaethau Mewnol (SICA) 2023/2024

Ystyriodd y pwyllgor yr Adroddiad Cryno ar Sicrwydd Rheolaethau Mewnol. Crynhodd FR yr archwiliadau o ran y canlyniadau cyffredinol a nifer yr argymhellion. Dywedodd FR fod trafodaethau wedi'u cynnal o fewn TIAA i sicrhau bod adnoddau wedi'u dyrannu i sicrhau bod yr adolygiadau'n cael eu cynnal mewn pryd. Dywedodd FR, fel y crybwyllwyd yn flaenorol, fod safonau archwilio mewnol byd-eang newydd yn dod i rym ym mis Ionawr. Fodd bynnag, mewn grŵp archwilio Heddlu Cenedlaethol ychydig wythnosau yn ôl awgrymwyd y byddai fersiwn sector cyhoeddus o'r safonau yn dod i rym ym mis Ebrill y flwyddyn nesaf. Dywedodd FR y bydd canllawiau'n cael eu cyhoeddi maes o law unwaith y bydd elfennau'r sector cyhoeddus wedi'u lansio.

Un o’r pwyntiau allweddol sy’n dod i rym yw llywodraethu archwilio mewnol ond cytunwyd bod Heddlu Dyfed-Powys mewn sefyllfa dda yn hyn o beth. Elfen allweddol fydd y cyfarfodydd rhwng y pwyllgor a TIAA.

**b. Ystyried yr Adolygiad Dilynol Interim 2024/2025**

Cyflwynodd FR yr adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg i’r aelodau o’r cynnydd a gyflawnwyd yn erbyn y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2024/2025. Nododd yr aelodau bod y rhan fwyaf o’r adroddiadau hyd yma wedi cael sicrwydd sylweddol. Nododd FR fod hyn i’w ddisgwyl gyda llawer o’r adolygiadau a gynhaliwyd gan eu bod yn ymwneud â phrosesau ariannol sy’n cael eu harchwilio’n flynyddol.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod 26 o argymhellion wedi’u rhoi ar waith a bod 15 heb eu gwneud. Mae gan bob un o’r rhai sydd heb eu gwneud ddyddiadau gweithredu diwygiedig a byddant yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau dilynol yn y dyfodol. Y rhesymau y tu ôl i rai o’r diwygiadau yw ein bod yn aros am ddiweddariadau i’r system neu ddiwygiadau polisi ac nid ydynt yn feysydd sy’n peri pryder.

**c. Ystyried yr Adolygiad Cydweithredol o Reoli Iechyd a Diogelwch**

Rhoddodd y pwyllgor ystyriaeth i’r adolygiad cydweithredol o Reoli Iechyd a Diogelwch a gafodd sicrwydd rhesymol ac a oedd yn cynnwys pedwar argymhelliad pwysig a phum argymhelliad arferol.

Nododd yr aelodau nad oedd y rheolwyr wedi cytuno ar ddau o’r argymhellion. Roedd y cyntaf yn ymwneud ag ymarferion tân a’r ffaith bod chwe ymarfer yn hwyr. Dywedodd y rheolwyr fod yr ymarferion tân wedi’u cwblhau mewn pryd ond nad oeddent wedi’u cofnodi oherwydd absenoldeb staff. Roedd yr ail yn ymwneud ag archwiliadau iechyd a diogelwch a bod gwall cyfrifo fformiwla wedi’i nodi ar brif daenlen archwiliad iechyd a diogelwch o ymarferion tân. Dywedodd y rheolwyr eu bod yn ansicr pam y codwyd hyn gan ei fod yn wall fformiwla ar y daenlen a gafodd ei gywiro ar adeg yr hysbysiad. Nododd yr aelodau eu pryderon mewn perthynas â’r ddau argymhelliad lle roeddynt yn teimlo y dylent fod wedi cael eu trafod yn y cyfarfod ymadael a byddai hyn wedi dileu’r angen i’w cynnwys yn yr adroddiad terfynol.

Mynegodd yr aelodau bryder pellach bod yna dair tudalen o ganfyddiadau ychwanegol mewn perthynas â Heddlu Dyfed-Powys ac yn wyneb hyn gofynnwyd am gyflwyno adroddiad diweddaru i gyfarfod nesaf y pwyllgor fel y gellir hysbysu'r aelodau o'r cynnydd sy'n cael ei wneud ers cynnal yr adolygiad.

Gofynnodd FS a oedd dilyniant o ran yr archwilwyr sy'n cynnal yr adolygiadau cydweithredol. Teimlwyd y byddai'n fuddiol pe bai'r un archwilwyr yn cael eu defnyddio i sicrhau dull cyson a sylwebaeth gyson ar draws yr adolygiad.

Cwestiynodd KC y defnydd o daenlenni i gofnodi gwybodaeth iechyd a diogelwch a gofynnodd a oes system iechyd a diogelwch benodol y gellid ei defnyddio. Nododd KC ymhellach y gallai fod yn fuddiol meincnodi Dyfed-Powys yn erbyn Gogledd Cymru gan eu bod wedi cael sicrwydd sylweddol ac efallai bod cyfle i ddysgu o'u prosesau.

**Cam Gweithredu A43 – Bod aelodau'n cael eu hysbysu a yw'r un archwilwyr yn cynnal yr archwiliadau ym mhob heddlu pan fydd adolygiad cydweithredol gan fod angen sicrhau cysondeb mewn perthynas â sylwadau a wneir fel rhan o adolygiad.**

**Cam gweithredu A44 – Bod adroddiad diweddaru mewn perthynas â'r Adolygiad Iechyd a Diogelwch yn dod yn ôl i'r cyfarfod nesaf, a ddylai hefyd gynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â hyfforddiant iechyd a diogelwch.**

**Gweithred A 45 – Bod adolygiad o systemau cofnodi iechyd a diogelwch yn cael ei gynnal a chysylltu â Heddlu Gogledd Cymru i nodi arferion gorau posibl.**

**ch. Ystyried yr Adolygiad Sicrwydd o Reoli Risg – Rheolaethau Lliniaru.**

Ystyriodd y pwyllgor 'yr Adolygiad Sicrwydd o Reoli Risg – Rheolaethau Lliniaru, y rhoddwyd sicrwydd sylweddol iddo. Nododd y pwyllgor fod dau argymhelliad blaenoriaeth tri. Roedd y cyntaf yn ymwneud ag adolygiad o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol ac argymhelliad y dylid ystyried sgôr targed. Roedd yr ail yn ymwneud â risg penodol ac argymhelliad y dylid adolygu'r teitl i sicrhau bod gwir achos y risg yn cael ei restru. Ni chytunwyd ar yr argymhelliad hwn gan y dywedwyd bod y teitl yn ddigonol o ystyried natur y risg.

Gofynnodd FS a oedd risgiau a leisiwyd yn 2022/2023 yn dal yn berthnasol ac a oeddent yn dal i gael eu cynnwys ar y gofrestr risg. Dywedodd GM fod rhai

risgiau wedi'u cynnwys ar y gofrestr er bod yr heddlu yn gweithredu rheolaethau lliniarol er enghraifft y risg mewn perthynas â fformiwla ariannu'r heddlu. Mae'r risg hon wedi'i chynnwys ers amser maith ond wrth i ni aros am benderfyniad y llywodraeth ynghylch adolygu'r fformiwla ariannu rhaid iddo barhau i fod yn risg oherwydd pan fydd yn digwydd ymhen amser, mae'n debygol o gael effaith ar gyllid Heddlu Dyfed-Powys.

Dywedodd GM ymhellach wrth yr aelodau bod angen diweddariadau ar risgiau penodol gan y byrddau perthnasol fel rhan o'r cylch sicrwydd perfformiad er mwyn sicrhau bod y risg a'r sgôr cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol.

### d. Ystyried yr Adolygiad Sicrwydd o Reoli'r Trysorlys

Ystyriodd y pwyllgor yr Adolygiad Sicrwydd o Reoli'r Trysorlys a nododd y sicrwydd sylweddol a ddarparwyd.

### dd. Ystyried yr Adolygiad Sicrwydd o'r Cyfriflyfr Cyffredinol

Ystyriodd y pwyllgor yr Adolygiad Sicrwydd o'r Cyfriflyfr Cyffredinol a nododd y sicrwydd sylweddol a ddarparwyd.

### e. Ystyried yr Adolygiad Sicrwydd o Reolaeth Gyllidebol

Ystyriodd y pwyllgor yr Adolygiad Sicrwydd o Reolaeth Gyllidebol a nododd y sicrwydd sylweddol a ddarparwyd.

### f. Ystyried yr adolygiad Sicrwydd o Reoli Newid TGCh

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adolygiad Sicrwydd o Reoli Newid TGCh a nododd y sicrwydd sylweddol a ddarparwyd.

## 9. Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2024/2025

Cyflwynodd ND Adroddiad Canol Blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2024/2025 i'r pwyllgor a dywedodd wrth yr aelodau mai ciplun o'r sefyllfa ar ddiwedd mis Medi oedd hwn.

Cwestiynodd yr aelodau'r wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys o dan y pennawd Dangosydd Darbodus 7 – Cymhareb Costau Ariannu â'r Llif Refeniw Net a holwyd a yw gwariant cyfalaf yn cael ei godi'n uniongyrchol ar y gyllideb refeniw neu a oedd agweddau eraill yn cael eu codi ar refeniw. Dywedodd ND y byddai hwn yn cael ei ddiwygio yn yr adroddiad diwedd blwyddyn olaf i roi mwy o eglurder.

**Cam Gweithredu A47 – Bod y geiriad mewn perthynas â Dangosydd Darbodus 7 yn adroddiad Rheoli'r Trysorlys yn cael ei wneud yn fwy clir yn yr adroddiad diwedd blwyddyn.**

## 10. Ystyried diweddariad ar y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol

Atgoffwyd yr aelodau bod adolygiad cynhwysfawr o drefniadau llywodraethu wedi'i gynnal o fewn SCHTh, a bod y trefniadau newydd hynny bellach wedi'u cynnwys yn y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol. Gofynnwyd i'r aelodau nodi bod cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr bellach wedi'u cynnwys ym mhrif ran y ddogfen.

Dywedodd y Prif Weithredwr hefyd fod newidiadau i ganllawiau caffael ar y gweill ac y bydd angen eu hymgorffori yn y fframwaith o fewn y flwyddyn ariannol newydd, felly bydd fframwaith diwygiedig pellach yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor ar gyfer eu sylwadau yn 2025.

Croesawodd yr aelodau'r ddogfen a gofynnwyd i weld dogfen sy'n tynnu sylw at y newidiadau i'w galluogi i ddeall yn llawn pa newidiadau sydd wedi'u gwneud. Codwyd un pwynt y dylid penderfynu a ddylid defnyddio staff neu weithwyr er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y ddogfen.

**Cam Gweithredu A47 – Bod aelodau'n cael copi o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol sy'n amlygu'r newidiadau a wnaed er mwyn caniatáu iddynt wneud unrhyw sylwadau ychwanegol.**

## 11. Cofrestr Risg yr Heddlu

Cyflwynodd GM Gofrestr Risgiau Corfforaethol yr heddlu i'r aelodau a nododd sylwadau cynharach y pwyllgor mewn perthynas â hyd a geiriad rhai o'r risgiau.

Roedd yr aelodau'n fodlon ar gynnwys yr adroddiad.

## 12. Cofrestr Risg Gorfforaethol SCHTh

Cyflwynodd NE Gofrestr Risgiau Corfforaethol SCHTh a dywedodd fod dwy risg wedi cael eu cau a'u tynnu oddi ar y gofrestr sef risg Goleudy oherwydd bod y contract wedi dod i ben ar 31 Hydref 2024. Roedd yr ail risg a oedd wedi'i chau yn ymwneud â chontract newydd gwasanaethau dioddefwyr a oedd bellach ar waith ac yn rhedeg yn dilyn trosglwyddo staff TUPE ar 14 Tachwedd 2024.

Hysbyswyd yr aelodau hefyd fod y sgôr mewn perthynas â'r Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn Aberystwyth wedi'i ostwng mewn ymateb i'r ffaith bod cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i gytuno.

Dywedodd NE ymhellach fod y risg mewn perthynas â chyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau ar yr agenda ar hyn o bryd, fodd bynnag, cafwyd cadarnhad yn ystod yr wythnos ddiwethaf bod setliad ariannu blynyddol wedi'i gyhoeddi. Roedd y cyllid yn ostyngiad o tua £24,000 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond roedd SCHTh yn hyderus bod ganddi ddigon o arian i ddelio â hyn.

## 13. Polisi Twyll a Gwrthlygredigaeth

Rhoddwyd polisi twyll a gwrthlygredigaeth wedi'i ddiweddaru i'r aelodau a dywedwyd wrthynt mai ychydig iawn o newidiadau a wnaed. Mae'r polisi wedi'i adolygu gan yr adran Safonau Proffesiynol.

Gofynnodd KC a yw polisi gwyngalchu arian yn bolisi ar wahân, a chadarnhawyd ei fod yn dod o dan y polisi twyll a gwrthlygredigaeth. Dywedodd IC mewn perthynas â'r polisi fetio, ei fod yn gysylltiedig â'r Arferion Proffesiynol Awdurdodedig ar gyfer fetio. Nodwyd y dylid cynnwys gwyngalchu arian o fewn y polisi.

Cytunodd y pwyllgor ar y polisi gyda'r rhybudd y dylid ystyried cynnwys gwyngalchu arian yn y polisi.

**Cam Gweithredu A48 – Ystyried cynnwys polisi Gwyngalchu Arian yn y polisi Twyll a Gwrthlygredigaeth**

## 14. Diweddariad ar Weithgarwch Twyll

Dywedodd NE nad oedd unrhyw ddiweddariadau cyfredol mewn perthynas â gweithgarwch twyll.

## 15. Diweddariadau aelodau

Nid oedd gan yr aelodau unrhyw ddiweddariadau ychwanegol i'w rhoi y tu hwnt i'r hyn a grybwyllwyd eisoes yn ystod y cyfarfod.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

**29 Ionawr 2025 – Cyd-bwyllgor Archwilio**

Heddlu Police DYFED-POWYS

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

| | CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD AR (5 Rhagfyr 2024) | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif y cam gweithredu** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **I'w symud ymlaen gan** | **Cynnydd** |
| A 38 | Bod cyfarfod yn cael ei drefnu rhwng aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio, TIAA ac Archwilio Cymru | NE | **Ar y gweill:** Mae dyddiadau cyfarfod cyfleus yn cael eu nodi cyn pennu dyddiad addas. |
| A 39 | Bod adroddiadau diweddaru ar reoli gwybodaeth yn cael eu cynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol er mwyn galluogi'r pwyllgor i fonitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud. | DJ | **Wedi'i gwblhau:** Bydd adroddiad diweddaru yn cael ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol nes bydd hysbysiad pellach. |
| A 40 | Dileu ceisiadau aelodau o'r cynllun gwaith generig, sef yr adroddiad cydymffurfedd statudol ystadau ac adroddiad ymchwiliadau pensiwn. Bydd ceisiadau o'r math hwn yn cael eu cynnwys yn y camau gweithredu a'u cynnwys yn y ddogfen cynllun gwaith sydd newydd ei datblygu. | NE | **Wedi'i gwblhau:** Mae'r adroddiadau wedi'u tynnu allan o'r cynllun gwaith cyffredinol. |
| A 41 | Bod statws baner/lliw yn cael ei gynnwys o fewn y Grŵp Llywodraethu Archwilio i alluogi aelodau i nodi'r adolygiadau hynny sydd â fwy o oedi. | MR | **Wedi'i gwblhau:** Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys mewn adroddiadau. |
| A 42 | Bod y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygiad Sefydliadol yn mynychu'r cyfarfod nesaf i roi diweddariad mewn perthynas ag argymhellion archwilio mewnol Adnoddau Dynol. | NE | **Wedi'i gwblhau:** Bydd y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygiad Sefydliadol yn mynychu'r cyfarfod nesaf ar 29 Ionawr 2025. |
| A 43 | Bod aelodau'n cael eu hysbysu os yw'r un archwilwyr yn cynnal yr archwiliadau ym mhob heddlu pan fydd adolygiad cydweithredol gan fod angen sicrhau cysondeb mewn perthynas â sylwadau a wneir fel rhan o'r adolygiadau. | FR | **Wedi'i gwblhau:** Dosbarthwyd gwybodaeth i aelodau ar 21 Ionawr 2025. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A 44 | Bod adroddiad diweddaru mewn perthynas â'r Adolygiad Iechyd a Diogelwch yn dod yn ôl i'r cyfarfod nesaf a ddylai hefyd gynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â hyfforddiant iechyd a diogelwch. | SB | **Wedi'i gwblhau:** Mae'r adroddiad wedi'i gynnwys ar yr agenda ar gyfer 29 Ionawr 2025. |
| A 45 | Bod adolygiad o'r defnydd o daenlenni fel modd o gofnodi gwybodaeth iechyd a diogelwch yn cael ei gynnal a chysylltu â Heddlu Gogledd Cymru i nodi arferion gorau posibl. | SB | **Ar y gweill:** Gwneir cysylltiadau â Heddlu Gogledd Cymru i nodi arferion gorau posibl a darparu diweddariad i'r pwyllgor. |
| A 46 | Bod y geiriad mewn perthynas â Dangosydd Darbodus 7 yn adroddiad Rheoli'r Trysorlys yn cael ei wneud yn gliriach yn yr adroddiad diwedd blwyddyn. | MR | **Ar y gweill:** Bydd hwn yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Rheoli'r Trysorlys diwedd blwyddyn |
| A 47 | Bod yr aelodau'n cael copi o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol sy'n amlygu'r newidiadau a wnaed i ganiatáu iddynt wneud sylwadau. | Prif Swyddog Gweithredol | **Wedi'i gwblhau:** Dosbarthwyd y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol diwygiedig i aelodau ar 22 Ionawr 2025. |
| A48 | Bod y polisi gwyngalchu arian yn cael ei grybwyll yn y polisi twyll a gwrthlygredigaeth. | HD | **Ar y gweill:** Mae'r polisi twyll yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a bydd gwyngalchu arian yn cael ei gynnwys yn y polisi diwygiedig. |